

Swper Haf Bwrlwm

Bydd aelodau Bwrlwm capel Bethlehem Talybont yn cynnal eu Swper Haf yng Nghlwb Golf Caernarfon nos Fawrth, Gorffennaf 7.

Pwyllgor y Gymdeithas

Cynhelir Pwyllgor Cymdeithas Undebol Llanberis tua diwedd y Bore Coffi fore Mawrth, Gorffennaf 14. Bydd angen ethol Ysgrifennydd newydd. Mae Miss Dilys Mai Roberts wedi gwneud y gwaith ers blynnyddoedd ac wedi dweud mewn da bryd ers blwyddyn na fyddai'n dal ati ar ôl y tymor diwethaf yma.

Henaduriaeth

Cynhelir Henaduriaeth Arfon yng nghapel Carmel (Arfon) am 6.30 o'r gloch nos Fercher, Gorffennaf 15.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mehefin 28: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad Miss Nerys Jackson, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Mehefin 28: Bydd yr Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch yng ngofal y

Y mis nesaf - Deiniolen

Mehefin 21

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mehefin 28

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

Gorffennaf 5

9.30 a.m.—Mr John H Hughes
10.15 a.m.—Ysgol Sul

Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mehefin 28: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Mercher, Mehefin 30: Cynhelir Pwyllgor Gwaith y Cyfarfod Chwarter yn festri Bethlehem am 10.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mehefin 28: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Mehefin 22: Te Bach er budd y capel yn y pnaun.

Dydd Sul, Mehefin 28: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Nos Iau, Mehefin 25: Cwpan Efe ar gae Ysgol Gynradd Llanrug rhwng 6.00 a 9.00 o'r gloch.

Dydd Gwener, Mehefin 26: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

Gwyliau Blynnyddol

Bydd y Gweinidog yn cychwyn ei fis o wyliau ddydd Gwener, Gorffennaf 17.

Y mis nesaf - Llanberis

Mehefin 21

10.00 a.m. - Oedfa
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Euros W Jones

Mehefin 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - DIM oedfa

Gorffennaf 5

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John H Hughes



Gronlyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 643: Dydd Sul, 21 Mehefin, 2015

Heulsaf yr Haf

Ambell wythnos, mi fydd testun yr erthygl hon yn amlwg i mi ymhell cyn dechrau ei sgwennu. Felly mae hi ar y gwyliau Cristnogol, ac felly mae hi pan fydd rhyw ddigwyddiad eithriadol wedi mynd â'r sylw yn ystod yr wythnos. Ac felly mae hi heddiw oherwydd y dyddiad sydd ar dop y dudalen hon: yr unfed ar hugain o Fehefin. Mae'n ddyddiad nodedig am mai dyma ddydd hwyaf y flwyddyn. O heddiw ymlaen, mi fydd y dydd yn byrhau! Ond nid yw hynny'n golygu bod yr hydref a'r gaeaf wrth y drws gan fod dyddiau cynhesaf y flwyddyn o ran trefn arferol pethau yn y wlad hon eto i ddod dros y ddeufis neu dri nesaf (gobeithio!).

Un peth yw cael testun, peth arall yw cael rhywbeth i'w ddweud am y testun hwnnw! Ac o fewn un paragraff, dyma fi wedi mynd i'r gors yn lân, heb fwy i'w ddeud am y diwrnod hwn a Heulsaf yr Haf. Nid yw capelwyr, beth bynnag am draddodiadau eraill yr Eglwys Gristnogol, wedi rhoi math o sylw i'r diwrnod hwn. A deud y gwir, fe roddwn gyn lleied o sylw iddo fel na wyddwn i mai 'Heulsaf yr Haf' yw'r term Cymraeg am *Summer Solstice*. Fwy na thebyg y clywn ni gryn dipyn am hwnnw heddiw gyda'r bwletinâu newyddion yn dangos pobl yn dathlu'r heulsaf yn Stonehenge a mannau eraill.

I lawer wrth gwrs, chwilfrydedd sy'n eu denu at y dathliadau hyn. I eraill, dymuniad i roi sylw i draddodiadau hynafol yr hen Geltiaid sy'n eu cymell.

Ond i rai, bydd a wnelo dathliadau heddiw â chrefydd ac addoliad, a chymysgedd o syniadau paganidd yn dod ynghyd wrth i bobl addoli'r haul a duwiau gwahanol sy'n gysylltiedig â'r haul a goleuni. Mae gemwaith Heulsaf yr Haul, er enghraifft, i fod i ddod ag optimistiaeth a chyfoeth i'r sawl sy'n ei wisgo.

Does ryfedd yn y byd fod Cristnogion wedi cilio draw oddi wrth dathliadau o'r fath sy'n gwneud y greadigaeth yn fwy na'r Creawdwr ei hun. Wrth reswm ein bod ninnau'n diolch am yr haul a'i oleuni a'i wres. Ond diolch amdano a wnawn, nid diolch iddo. Nid addoli'r haul, ond addoli'r Duw a'i gwnaeth a wnawn ni. Nid yr haul ond Duw, a wnaeth yr haul, sy'n ein cynnal, yn ein gwarchod ac yn dwyn ei fendithion tymhorol ac ysbrydol i ni. Nid yn yr haul a'i rym a'i allu i roi bywyd a ffrwythlondeb y gobeithiwn, ond yn Nuw'r Tad, sydd wedi ein creu a'n cynnal, ac sydd wedi dangos ei gariad cwbl ryfeddol atom trwy fywyd a marwolaeth ac atgyfodiad ei Fab Iesu.

Mae'r Duw hwn o'n tu, a'r cariad hwn o'n plaid bob munud, pa ddiwrnod a pha ddyddiad bynnag ydyw. Ac mae gofal Duw yn sicr, ganol haf ein llwyddiannau a'n llawenydd, a chanol gaeaf ein lludded a'n llesgedd. Nid gallu haul, ond grym cariad Duw sy'n rhoi i ni ddiogelwch a gobaith heddiw fel pob dydd.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Cynhelir oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones, Llangefni. Cydymdeimlwn ag Euros yn y brofedigaeth o gollu ei chwaer yr wythnos ddiwethaf.

Bydd yr Oedfa Deulu yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch a'r oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Marcus Robinson, Bethel.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Megan Williams, Porthaethwy.

Diolch

Diolch yn fawr i'r rhai sy'n arwain yr oedfaon o fewn yr Ofalaeth heddiw. Estynnwn groeso cynnes i chi.

Cofion

Dymuniadau gorau hefyd i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Cymorth Cristnogol

Cyfanswm Casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol yn Llanberis a Nant Peris y mis diwethaf oedd £1000.78 (sef £846.46 yn Llanberis a £154.32 yn Nant Peris).

Diolch yn fawr iawn am bob cyfraniad a diolch yn bennaf i'r casglyddion am eu gwaith eleni eto.

Te Bach

Cynhelir 'Te Bach' yn festri Carmel, Llanllechid brynhawn yfory, dydd Llun, Mehefin 22. Bydd yr elw at y capel. Croeso cynnes i bawb.

Cwpan Efe

Mae noson Cwpan Efe wedi cyrraedd unwaith eto, a bydd plant ysgolion Sul am y gorau i ennill y cwpan pwysig hwn eto eleni.

Cynhelir y gystadleuaeth ar gae Ysgol Gynradd Llanrug, rhwng 6.00 a 9.00 o'r gloch nos Iau'r wythnos hon (Mehefin 25).

Plant Capel Cysegr, Bethel a enillodd y cwpan y llynedd, a does wybod pwy fydd yn dod i'r brig y tro hwn. Ond bydd pawb yn edrych ymlaen at noson o hwyl a phawb am ennill.

Diolch i Andrew am y gwaith trefnu ar gyfer y noson, a gobeithio'n fawr y bydd

popeth yn hwylus nos Iau. Byddwn yn gobeithio am dywydd braf yn sicr, yn arbennig o gofio'r hyn a ddigwyddodd y llynedd pan ddaeth y glaw trwy'r dydd a'n gorfodi i benderfynu gohirio'r cyfan am bythefnos.

Mae'r gystadleuaeth bel droed 5-yr-ochr hon ar gyfer plant blynyddoedd ysgol 3, 4, 5 a 6 (hogia a genod, wrth gwrs).

Bu'n arferiad gennym ddweud gair syml am Iesu Grist yn ystod yr egwyl hanner ffordd trwy'r cystadlu, a byddwn yn gwneud hynny eto nos Iau.

Ceir rhagor o fanylion gan Andrew (07929 916 181). Nid yw'n rhy hwyr i gofrestru tim ar gyfer nos Iau. Ffoniwch Andrew heno os oes gennych dîm o'ch Ysgol Sul.

Cwpan CIC

Cystadleuaeth boblogaidd arall a drefnir bob blwyddyn gan Trobwynt yw Cwpan CIC, i dimau pel droed 5-yr ochr oed uwchradd (Blwyddyn 7-10). Bydd croeso i dimau o bob rhan o'r Gogledd.

Caiff ei chynnal eleni, fel y llynedd, yn Abererch, ar dir Canolfan Gristnogol Tŷ Nant nos Iau, Gorffennaf 9. Bydd y chwarae'n cychwyn am 5.30 o'r gloch.

Cafwyd noson lwyddiannus iawn yno'r llynedd ac edrychwn ymlaen at noson yr un mor llwyddiannus eleni.

Andrew sy'n trefnu'r gystadleuaeth hon hefyd gan ei fod yn parhau i weithio i Trobwynt yn ogystal ag i Efe.

Te Mefus

Cynhelir Te Mefus yn festri Bethlehem, Talybont am 7.00 o'r gloch, nos Fercher. Gorffennaf 1. Y tâl mynediad fydd £2.00. Bydd yr elw at y Capel. Croeso i bawb.

Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr

Cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni yn Nant Gwrtheyrn o ddydd Iau, Gorffennaf 2 hyd ddydd Sadwrn, Gorffennaf 4.

Hwn fydd y tro cyntaf i'r Annibynwyr, neu unrhyw enwad arall o ran hynny, gynnal eu cyfarfodydd blynyddol yn Nant Gwrtheyrn.

Dechreuir am 11 o'r gloch ddydd Iau ac am 10.00 o'r gloch ddydd Gwener. Os na fyddwch yno yn ystod y dydd ar gyfer y trafodaethau, bydd croeso i chi i'r Oedfa o Fawl ar y nos Wener. Bydd honno am 7.30 o'r gloch, a phregethir gan y Parchg Euros Jones, Llangefni.

Llywydd yr Undeb eleni yw'r Parchg Ddr R Alun Evans.

Diwrnod Bach i'r Brenin Mawr

Daw Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr i ben gyda 'Diwrnod Bach i'r Brenin Mawr', a gynhelir yn Nant Gwrtheyrn ddydd Sadwrn, Gorffennaf 4.

Diwrnod o addoliad a mwynhad fydd hwn i blant, ieuencid a phobl o bob oed. Bydd yno weithgareddau arbennig ar gyfer y gwahanol oeddrannau, a chyfle i addoli mewn arddull fywiog a ffres. Bydd y pwyslais ar gyflwyno neges y Beibl a dysgu am yr Efengyl.

Dymunwn yn dda i Dafydd a Gwenno Pritchard, Llanrug a fydd yn arwain y sesiynau i blant gyda Llinos Roberts, Trefor.

Bydd y gweithgareddau'n cychwyn am 10.30 o'r gloch y bore ac yn dod i ben am 4.00 o'r gloch y prawn.